**Adolygiad o weithgareddau a chyflawniadau Cyngor Partneriaeth Cymru dros y cyfnod o 3 blynedd rhwng mis Ionawr 2019 a diwedd mis Mawrth 2022**

## Cyflwyniad

1. Nawr, yn fwy nag erioed, ceir tystiolaeth bod ein gwasanaethau cyhoeddus a phob haen o lywodraeth yng Nghymru yn cydweithio gydag egni ac ymrwymiad ar y cyd i gefnogi pobl a chymunedau i fod yn ddiogel ac i dderbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

2. Drwy gydol argyfwng Covid-19 gwelwyd tystiolaeth o bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth, gydag ymrwymiad go iawn i gyd-gynhyrchu polisïau a chynlluniau ac ystyried data gwyddonol ar y cyd. Yn ystod y pandemig, cafwyd trafodaethau dyddiol brys a hollbwysig o ran amser rhwng Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Awdurdodau Lleol, yr heddlu, y sector gwirfoddol ac amrywiaeth o'n partneriaid agosaf.

3. Yn ogystal â'r trafodaethau brys hynny, gwelwyd manteision cael fforymau a oedd eisoes ar waith, megis Cyngor Partneriaeth statudol Cymru (y Cyngor Partneriaeth), sydd wedi galluogi trafodaethau strategol a gweithredol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r fforymau hyn wedi golygu bod modd cynnal trafodaethau gwleidyddol ar faterion a heriau allweddol a rennir, heb greu strwythurau newydd.

4. Cafodd aelodaeth y Cyngor Partneriaeth ei hymestyn yn ystod y pandemig i gynnwys Arweinwyr y 22 awdurdod lleol (yn hytrach nag 8 cynrychiolydd), a chynrychiolwyr o GIG Cymru, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Un Llais Cymru a'r Awdurdodau Tân ac Achub. Mae aelodaeth TUC Cymru yn dod ag arbenigedd sy'n helpu i sicrhau bod trafodaethau'n cael eu cynnal yng nghyd-destun partneriaeth gymdeithasol ac yn sicrhau bod y goblygiadau i'r gweithlu'n cael eu cydnabod a'u hystyried. Mae Archwilio Cymru hefyd yn arsylwi ac yn darparu cyngor.

5. Mae Prif Weinidog Cymru a holl Weinidogion Cymru yn aelodau o'r Cyngor Partneriaeth ac maent yn ei werthfawrogi fel ffordd o ymgysylltu ag awdurdodau lleol a phartneriaid – i drafod, i ddadlau ac i gytuno ar ffyrdd adeiladol ymlaen ar faterion, heriau a blaenoriaethau cyffredin ar draws portffolios. Mae hyn yn ategu'r mecanweithiau ymgysylltu penodol eraill sydd ar waith ar gyfer meysydd portffolio fel gofal cymdeithasol, tai ac addysg. Mae Cyngor Partneriaeth Cymru yn wahanol gan ei fod yn cefnogi'r berthynas ehangach rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y trydydd sector, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a sefydliadau a sectorau partner eraill.

6. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg ar rywfaint o'r hyn sydd wedi cael ei gyflawni drwy Gyngor Partneriaeth Cymru rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2022. Yn dilyn etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, bydd y Cynllun

Partneriaeth yn cael ei ystyried eto a'i ddiwygio a'i ddiweddaru o bosibl mewn da bryd ar gyfer cam nesaf adeiladu ar y berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. Bydd hyn eto'n canolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau a rennir wrth symud ymlaen, gan gynnwys y rheini yn y Rhaglen Lywodraethu, sy'n ymgorffori blaenoriaethau'r Cytundeb Cydweithio. Drwy ei eitemau agenda sefydlog, mae'r Cyngor Partneriaeth yn cefnogi'r gwaith partneriaeth ehangach ym meysydd hanfodol newid hinsawdd ac adferiad ac ail-greu Cymru yn dilyn pandemig Covid-19.

## Cefndir

7. Mae Adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf) yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn creu cynllun sy'n dangos sut maent yn cynnig cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru wrth arfer eu swyddogaethau.

8. Mae Adran 73 o'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi adroddiad ar sut cafodd cynigion y Cynllun eu gweithredu bob blwyddyn. Gobeithio bydd y naratif hwn ar lwyddiannau pwysig y Cyngor Partneriaeth yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2019 a mis Mawrth 2022 yn rhoi cipolwg ar fanteision gweithio mewn partneriaeth yn ystod y cyfnod eithriadol hwn, a oedd yn cynnwys ymadawiad y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd a phandemig Covid-19.

## Y prif faterion a gafodd sylw gan y Cyngor Partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn

### Brexit/Trefniadau Pontio Ewropeaidd

9. Ym mis Ionawr 2019, cynhaliwyd cyfarfod arbennig o'r Cyngor Partneriaeth i ganolbwyntio o ddifrif ar y paratoadau ar y cyd petai Brexit 'heb gytundeb'. Cafodd hyn ei hwyluso gan y Prif Weinidog, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, a'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit ar y pryd. Cafwyd eitem yn y Cyngor Partneriaeth bedwar mis yn gynharach pan roedd y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi trafod Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Sicrhau Dyfodol Cymru*, a phapurau polisi dilynol a oedd yn cynnwys tystiolaeth, dadansoddiad a chynigion manwl gyda'r nod o ddiogelu swyddi, cymunedau ac economi Cymru.

10. Erbyn cyfarfod mis Ionawr 2019, fodd bynnag, roedd llai na 100 diwrnod nes bod disgwyl i'r DU adael yr UE ar 29 Mawrth. Codwyd pryderon mawr ynghylch yr ansicrwydd sylweddol ynghylch y telerau y byddai'r DU yn gadael oddi tanynt, a'r risg uwch y byddai'r DU yn 'disgyn allan' heb gytundeb. Bu Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ar draws y sector cyhoeddus i baratoi ar gyfer ymadawiad 'dim cytundeb' posibl, ac mae wedi parhau i wneud hynny drwy wynebu'r gwahanol sefyllfaoedd a datblygiadau yn nes ymlaen yn 2019, yn ogystal ag ar ddiwedd y cyfnod pontio ar ddiwedd 2020.

11. Roedd y dull a ddefnyddiwyd mewn ymateb i baratoi i adael yr UE yn un o gydweithio, rhannu adnoddau a lleihau dyblygu, gwneud pethau ‘unwaith i Gymru’ ond gyda phob awdurdod yn gallu teilwra’r ymateb yn ôl ei anghenion ei hun. Mae’r dull hwnnw wedi parhau, ac wedi’i gryfhau ymhellach wrth ymateb i bandemig Covid, a’r argyfwng newid hinsawdd.

12. Mae ymgysylltiad y Cyngor Partneriaeth ynghylch ymadael â’r UE bob amser wedi ategu’r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Weinidogion portffolio perthnasol gyda Bwrdd Gweithredol CLILC, a Phanel Cynghori Paratoadau’r UE ar gyfer Llywodraeth Leol.

13. Roedd Brexit a’r Cyfnod Pontio o’r UE yn dal yn eitem sefydlog ar holl agendâu dilynol y Cyngor Partneriaeth tan 2021. Drwy gydol y cyfnod hwn, rhoddodd y Cwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Pontio Ewropeaidd bryd hynny, neu ei Gyfarwyddwr Polisi, yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau’r Cyngor Partneriaeth am y negodiadau a’r sefyllfa a oedd yn esblygu. Roedd y trafodaethau’n canolbwyntio’n aml ar effaith Brexit ar weithlu’r gwasanaethau cyhoeddus, llawer ohonynt yn wladolion yr UE ac yn ansicr ynghylch eu statws yn y dyfodol.

14. Drwy’r Cyngor Partneriaeth cynigiwyd gwerth £1.2m o gyllid cymorth Brexit i ddechrau ac wedyn cytunwyd ar hynny; roedd y cyllid hwn yn cefnogi penodi cydlynwyr Brexit ym mhob un o’r 22 awdurdod.

15. Ar lefel strategol, roedd rhannu’r paratoadau a’r cynlluniau ar gyfer Brexit ‘heb gytundeb’ posibl wedi sicrhau bod Llywodraeth Cymru a phob un o’r 22 prif awdurdod lleol yn cyd-fynd ac yn rhannu gwybodaeth, ynghyd â phartneriaid eraill fel GIG Cymru a oedd yn wynebu llawer o heriau tebyg, yn enwedig o ran cyflenwi a chefnogi aelodau o’u gweithlu nad oeddent yn wladolion Prydeinig.

16. Ar y cam hwn roedd ffocws mawr ar argyfwng sifil posibl, gyda chyfarfodydd briffio a thrafodaethau’r Cyngor Partneriaeth yn rhoi gwybodaeth i awdurdodau lleol, fel arweinwyr cymunedol a darparwyr gwasanaethau allweddol, a chyrff hanfodol i ymateb Cymru i senario ‘dim cytundeb’. Roedd hyn yn golygu cyswllt rheolaidd a chydweithio agos rhwng yr awdurdodau lleol, y Fforymau Cadernid Lleol rhanbarthol a Chanolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru, i gyd yn bwydo gwybodaeth barhaus i Lywodraeth Cymru ac i Weinidogion. Roedd hyn, yn ei dro, yn helpu i fwydo gwybodaeth i weithrediadau Brexit Llywodraeth y DU.

17. Ar lefel weithredol, roedd y cytundeb a wnaed yn ystod un o gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth i gyfuno dosbarthu taflenni cyngor Llywodraeth Cymru gyda chyhoeddi cyfriflenni blynyddol y dreth gyngor gan awdurdodau lleol yn enghraifft o ddarparu cyngor amserol i ddinasyddion mewn ffordd a oedd yn debygol o gael gwell cyrhaeddiad ac arbed costau gweinyddol.

18. Ar ben hynny, mae CLILC ac awdurdodau lleol wedi bod yn ganolog i’r gefnogaeth a roddwyd i ddinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru sydd wedi gwneud, ac sy’n parhau i wneud, ceisiadau i’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Yn benodol, a thrwy gydweithio, gwnaed ymdrechion sylweddol i gefnogi grwpiau agored i niwed o ddinasyddion yr UE ledled Cymru, gan gynnwys plant sy’n derbyn gofal, dinasyddion digartref a dinasyddion sy’n

ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol.

19. Mae'r gwaith ar ôl i'r DU adael yr UE yn dal i fynd rhagddo ac mae'r effeithiau dilynol, gan gynnwys ar weithlu'r gwasanaethau cyhoeddus, cyflenwadau a darparu gwasanaethau, yn dal i gael eu trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth (er bod yr eitem sefydlog yn canolbwyntio o reidrwydd ar adferiad Cymru ar ôl pandemig Covid).

## Pandemig Covid-19

20. Yn ystod y cyfnod heriol a digynsail hwn, gan ein bod wedi byw drwy bandemig Covid-19 ac wedi teimlo'r effaith ar ein bywydau a'n gwasanaethau cyhoeddus, roedd Cyngor Partneriaeth Cymru yn darparu man cyfarfod hanfodol i arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ddod at ei gilydd, yn rhithiol, i ganolbwyntio ar yr heriau allweddol a fyddai'n cael eu hateb orau ar y cyd. Mae'r arweinyddiaeth gref ac unedig hon wedi bod yn hollbwysig o ran cefnogi cymunedau, gweithluoedd a dinasyddion Cymru drwy sicrhau eu bod yn parhau i gael gwasanaethau a chymorth hanfodol a newydd drwy gydol yr argyfwng iechyd cyhoeddus.

21. Mae cymunedau ac unigolion hefyd wedi cael eu cefnogi gan y cynghorau cymuned a thref, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a mudiadau a gwirfoddolwyr y sector gwirfoddol – mae pob un ohonynt wedi bod yn rhan hanfodol o'r ymdrechion cefnogi, yn enwedig drwy ddarparu cefnogaeth wedi'i thargedu i'r rhai mwyaf agored i niwed.

22. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid Cymru, er nad yw'r cyfrifoldeb dros bolisïau a chyflawni plismona wedi'i ddatganoli o hyd. Drwy gydol pandemig Covid, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol wedi cwrdd yn rheolaidd ag Arweinwyr awdurdodau lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid er mwyn gallu rhoi sylw brys i ystyried pob un o'u cyfrifoldebau, boed y rheini'n unigryw iddynt neu'n gorgyffwrdd, er enghraifft mewn meysydd fel gorfodi rheoliadau Covid.

23. Mae'r Cyngor Partneriaeth wedi parhau i fod yn elfen bwysig a sefydlog o strategaeth ymgysylltu Covid fel glud sydd wedi dwyn y llinynnau ynghyd bob chwarter, wedi hwyluso trafodaethau ynghylch cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol, a chynllunio ar y cyd ar gyfer y camau nesaf.

## Adferiad Cymru

24. Wrth i Gymru symud yn araf o'r cyfyngiadau symud cyntaf ac i'r cyfnod Adfer cychwynnol, sefydlwyd is-grŵp o'r Cyngor Partneriaeth, yr Is-grŵp Adfer, i ddarparu mecanwaith ffurfiol i Weinidogion Cymru, Arweinwyr awdurdodau lleol ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill barhau i ymgysylltu ynghylch yr adferiad ar ôl Covid-19. Cydnabuwyd nad argyfwng tymor byr oedd y pandemig ac roedd angen parhau â'r arweinyddiaeth gyffredin a ddangoswyd gan wasanaethau cyhoeddus wrth ddechrau gweithredu cynllun adfer ar gyfer Cymru.

25. Yn ystod y pandemig, roedd gweision cyhoeddus wedi dangos eu bod yn ddyfeisgar, yn arloesol ac yn hyblyg, ac felly roedd hi'n bwysig casglu'r hyn a ddysgwyd o'r cyfnod hwnnw er mwyn helpu i gynllunio'n strategol a gweithredu'r gwaith parhaus o drawsnewid gwasanaethau.

26. Cafodd gwaith yr Is-grŵp Adfer ei osod yng nghyd-destun gwaith ehangach ar adfer, gan gynnwys mabwysiadu'r gwerthoedd a fynegwyd drwy gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r pandemig, *'Arwain Cymru allan o'r Pandemig Coronafeirws: Fframwaith ar gyfer Adferiad*, ym mis Ebrill 2020, a *Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod* ym mis Mai 2020.

27. Roedd yr is-grŵp yn cefnogi'r Cwnsler Cyffredinol bryd hynny yn ei rôl fel Gweinidog sydd â'r prif gyfrifoldeb dros gydlynu a goruchwylio'r Adferiad ar ôl Covid-19. Mewn cyfarfod o'r is-grŵp, tynnodd y Cwnsler Cyffredinol sylw at ofal cymdeithasol, tai, yr economi ac adferiad gwyrdd fel y pedwar maes eang yr oedd yn canolbwyntio arnynt yn ei drafodaethau ynghylch adfer.

28. Drwy'r Cyngor Partneriaeth, gofynnwyd i CLlLC ddangos sut y byddai cynigion awdurdodau lleol i adfer yn cyfrannu at bob un o'r pedwar maes hyn, a nodi'r rheini a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar gymunedau, ar yr un pryd â chyflawni ystod o amcanion polisi. Yna, daeth y papur CLlLC dilynol, *Cyfleoedd Allweddol am Newid ac Ysgogiadau Economaidd*, yn sail i drafodaethau parhaus, yn y Cyngor Partneriaeth a chyda Gweinidogion y portffolio.

29. Yn hollbwysig, roedd gwaith yr is-grŵp yn cyd-fynd â'r gwaith a oedd eisoes yn mynd rhagddo, neu a oedd yn cael ei gynllunio, mewn meysydd fel diwygio gofal cymdeithasol, felly nid oedd yr is-grŵp yn dyblygu gwaith, ond yn helpu i gynnull a siapio'r hyn oedd yn mynd rhagddo.

30. Cytunodd yr is-grŵp hefyd i ganolbwyntio ar feysydd trawsbynciol ynni, digidol a sgiliau, fel yr amlinellir yn y papur ysgogiadau economaidd. Roedd hyn yn cynnwys manteisio ar yr agenda ddigidol, gweithio gydag arweinwyr digidol i fanteisio ar y dysgu am wasanaethau digidol a gweithio'n ystwyth, ac archwilio offer i helpu'r adferiad drwy ragor o gydweithio ac ymgysylltu digidol.

31. Roedd cyfraniadau'r Cyngor Partneriaeth, ynghyd â mewnbwn ehangach gan ddinasyddion ac arbenigwyr ar hyd a lled Cymru, wedi cyfrannu at y gwaith o gyhoeddi *Ail-greu ar ôl COVID-19: yr Heriau a'r Blaenoriaethau*. Roedd hwn yn crynhoi effeithiau'r pandemig ac yn nodi'r blaenoriaethau brys a gafodd eu hariannu drwy becyn ail-greu gwerth £320m. Roedd hefyd yn nodi blaenoriaethau polisi tymor hirach, sydd wedi cael eu trosglwyddo i'r Rhaglen Lywodraethu ar gyfer tymor newydd y Senedd hon.

32. Wrth i bandemig Covid-19 symud i ail gyfnod brig a chyfyngiadau symud, daeth gwaith yr Is-grŵp Adfer yn rhan o feysydd brys cymorth busnes, gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd, a chytunodd Aelodau'r Cyngor Partneriaeth fod adferiad Cymru yn dod yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor Partneriaeth, gan ddisodli'r angen am yr is-grŵp. Mae'r eitem Adfer ar yr agenda yn cynnwys gwahanol feysydd polisi gan fod y Cyngor Partneriaeth yn cefnogi

adferiad tymor hirach gwasanaethau cyhoeddus Cymru er mwyn iddynt allu parhau i gefnogi pobl a chymunedau.

## Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu

33. Mae'r Cyngor Partneriaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o alluogi neu gefnogi arweinyddiaeth ar y cyd ar ystod o ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

34. Cafodd y berthynas hon ei gwella ymhellach pan gynhaliwyd cyfarfod, ym mis Hydref 2021, rhwng Cabinet Llywodraeth Cymru i gyd (y Prif Weinidog a'r holl Weinidogion) a'r 22 o Arweinwyr awdurdodau lleol yng Nghymru. Pwrpas y cyfarfod oedd cryfhau ac adeiladu ar berthynas waith adeiladol Llywodraeth Cymru â llywodraeth leol, a gosod blaenoriaethau newydd y Rhaglen Lywodraethu fel ymdrech ar y cyd.

35. Mewn ymateb i'r gwahoddiad i'r digwyddiad hwn, dywedodd Arweinydd CLILC:

*"Rydym wir yn croesawu eich cynnig ar gyfer y cyfarfod cychwynnol hwn. Bydd yn gyfle gwerthfawr i edrych ar flaenoriaethau a meysydd sy'n peri pryder i'r naill ochr a'r llall, ac yn cryfhau ein dull partneriaeth o lywodraethu yng Nghymru.*

*Rydym eisoes yn cynnal deialog adeiladol gyda Gweinidogion ac arweinwyr unigol ond dyma'r tro cyntaf, ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, i Gabinet llawn Cymru gynnal cyfarfod gyda phob un o'r 22 o arweinwyr awdurdodau lleol. Mae hyn felly'n ddatblygiad i'w groesawu ac yn fodel o gysylltiadau canolog-lleol nad yw'n cael ei ailadrodd mewn mannau eraill ar draws y DU.*

*Rydym yn awyddus i gyfrannu'n adeiladol at lunio a helpu i gyflwyno'r Rhaglen Lywodraethu; gall arweinwyr sicrhau bod profiadau a blaenoriaethau lleol yn helpu i lunio blaenoriaethau cenedlaethol y Cabinet a gallwn nodi sut y gall atebion lleol helpu i sicrhau bod anghenion y gymuned yn cael eu diwallu a bod canlyniadau ar y cyd yn cael eu cyflawni."*

36. Y blaenoriaethau craidd i'w trafod yn y digwyddiad, fel y nodwyd gan CLILC ac a gymeradwywyd gan Weinidogion, oedd y materion allweddol sy'n ymwneud â Newid Hinsawdd (lliniaru ac addasu); a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

37. Yn y digwyddiad, bu'r Prif Weinidog yn pwyso a mesur y deunaw mis diwethaf a'r berthynas waith hollbwysig roedd Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol wedi'i datblygu a oedd wedi bod mor hanfodol i helpu i reoli'r pandemig a gwasanaethu pobl Cymru.

38. Pwysleisiodd y Prif Weinidog sut mae'r berthynas bellach yn hanfodol i gyflawni'r uchelgeisiau a rennir ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

39. Yr her nawr oedd canolbwyntio'r gwaith partneriaeth adeiladol ar y dasg o siapio adferiad a datblygu atebion beiddgar, creadigol ac arloesol ar y cyd i helpu i

sicrhau Cymru well. Pwysleisiodd fod dull 'Tîm Cymru' wedi ein helpu i ddod drwy Covid a'i fod nawr yn gallu helpu i fynd i'r afael â heriau yfory.

## Cyflawni un o ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu drwy'r Cyngor Partneriaeth: Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio

40. Mae mynd i'r afael â'r argyfwng Newid Hinsawdd ar y cyd, drwy amrywiaeth o fesurau gan gynnwys datgarboneiddio, yn un o brif flaenoriaethau llywodraethau a gwasanaethau cyhoeddus yn rhyngwladol.

41. Yng Nghymru, mae'r Cyngor Partneriaeth yn chwarae rhan hollbwysig yng ngwaith Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill i ddatblygu, ac i oruchwylio'r dasg o weithredu strategaethau a pholisïau sy'n symud Cymru'n nes at gyrraedd targedau sero net a Chymru wyrddach.

42. Ym mis Mehefin 2020, i gydnabod pwysigrwydd strategol mynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd, cytunodd y Cyngor ar set o ymrwymiadau pwysig a dull gweithredu 'tîm Cymru'. Roedd hyn yn cynnwys cytuno y byddai'r gwaith hwn yn eitem sefydlog ar agendâu'r Cyngor Partneriaeth, er gwaethaf pwysau'r pandemig a'r cyfnod Pontio o'r UE.  Roedd hefyd yn cynnwys sefydlu Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol (y Panel) ar lefel swyddogion, ac y byddai gan bob awdurdod lleol gynlluniau gweithredu ar gyfer datgarboneiddio.

43. Mae'r Cyngor Partneriaeth yn rhoi arweiniad gwleidyddol ar gyfer gwaith y Panel Strategaeth ac mae'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd ym mhob cyfarfod o'r Cyngor Partneriaeth yn ystod yr eitem sefydlog ar Ddatgarboneiddio a Newid Hinsawdd.  Roedd gwaith y Panel wedi hwyluso datblygu cyfres o ymrwymiadau Llywodraeth Leol wedi'u grwpio o dan bedair thema *Statws Carbon Sero Net erbyn 2030 Trywydd Sector Cyhoeddus Cymru:* caffael; trafnidiaeth; adeiladau; a defnydd tir.  Roedd yr ymrwymiadau hynny'n bwydo i mewn i *Sero Net Cymru* a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, gan nodi'r polisïau a'r camau gweithredu ar draws Cymru i gyrraedd y targedau sero net.

44. Roedd adolygiad diweddar (Medi 2021), wedi'i arwain gan CLILC ac wedi'i gyllido gan Lywodraeth Cymru, o'r enw *Adolygiad o Gynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio Llywodraeth Leol Cymru*, yn cynnwys trosolwg o gynlluniau awdurdodau i weithio at y nod o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030.

45. Roedd CLILC wedi comisiynu'r adolygiad hwn o gynlluniau awdurdodau lleol fel cam cyntaf ei *Raglen Cymorth Pontio ac Adfer* a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru (sy'n dod â'r adferiad ar ôl Covid, y cyfnod pontio o'r UE a'r agenda werdd at ei gilydd i greu un rhaglen strategol). Mae'r rhaglen yn darparu gwybodaeth i'r rheini sy'n gweithio ar gynllunio datgarboneiddio a newid hinsawdd yn fwy cyffredinol, ac mae hynny bellach yn cynnwys addasu a gwytnwch yn dilyn cytundeb yng nghyfarfod y Cyngor Partneriaeth ym mis Tachwedd 2021. Mae hefyd yn datblygu ffyrdd o nodi a rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg; cefnogi Aelodau Etholedig a swyddogion sy'n gweithio yn y maes hwn; a chyfrannu at waith y Panel Strategaeth Datgarboneiddio.

46. Roedd yr adolygiad o gynlluniau gweithredu awdurdodau lleol yn tynnu sylw at y ffaith bod nifer o ffactorau sy'n sbarduno datgarboneiddio mewn llywodraeth leol yng Nghymru a'u cymunedau ehangach; gan gynnwys ymrwymiadau gwleidyddol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd; gwaith sydd wedi hen ennill ei blwyf i leihau allyriadau carbon sefydliadol; amrywiaeth eang o brosiectau a gweithgarwch yn y gymuned i leihau allyriadau mewn cymunedau lleol; a nifer o bartneriaethau'n datgarboneiddio drwy raglenni a phrosiectau ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

47. Mae allyriadau gwaelodlin a gynhyrchir gan awdurdodau lleol wedi cael eu casglu, gan ddefnyddio'r fethodoleg yn *Canllaw Sector Cyhoeddus Cymru ar gyfer Adrodd ar Garbon Sero-Net* gan Lywodraeth Cymru (Mai 2021).

48. Bydd y Cyngor Partneriaeth yn parhau i gefnogi gwaith y sector cyhoeddus i gyflawni yn erbyn y targedau yn nogfen Llywodraeth Cymru *Gweithio Gyda'n Gilydd i Gyrraedd Sero Net: Cynllun Cymru Gyfan 2021-25* (Hydref 2021) ac yn y diweddariad o'r *Rhaglen Lywodraethu 2021 i 2026* (Rhagfyr 2021) sy'n trafod y Cytundeb Cydweithio y cytunwyd arno gyda Plaid Cymru ac sy'n cynnwys nifer o ddiweddariadau i'r targedau argyfwng hinsawdd a natur.

49. Yn yr un modd â chyda COP 26 ei hun, nid yw'r ymrwymiadau ond cystal â'r ffordd y cânt eu cyflawni a'u hanrhydeddu. Bydd hi'n bwysig cadw ffocws clir ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar lefel leol, genedlaethol, y DU a rhyngwladol, ac mae'r Cyngor Partneriaeth yn fforwm pwysig ar gyfer y trafodaethau parhaus hyn.

## Roedd ymrwymiadau eraill y Rhaglen Lywodraethu a drafodwyd yn y Cyngor Partneriaeth yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn yn cynnwys ymrwymiadau ynghylch:

- Creu rhagor o gyfleoedd prentisiaeth, yn enwedig mewn perthynas â gofal cymdeithasol ac iechyd.
- Adfywio canol trefi, gan gynnwys canolbwyntio ar yr economi gylchol.
- Gweithredu ac ariannu'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (a fydd yn Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol).
- Parhau i adeiladu ar y gwaith partneriaeth cryf rhwng Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, CGGC a mudiadau gwirfoddol.
- Adeiladu cartrefi cymdeithasol carbon-isel newydd i'w rhentu.
- Mynd i'r afael â digartrefedd.
- Datblygu polisi ail gartrefi.
- Creu strategaeth ddiwydiannol sy'n seiliedig ar goed ar gyfer Cymru.
- Datgarboneiddio rhagor o gartrefi drwy ôl-osod, gan ddarparu swyddi o safon, hyfforddiant ac arloesedd a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol.
- Sicrhau bod gan bob rhanbarth yng Nghymru ddull effeithiol ac atebol yn ddemocrataidd o ddatblygu economïau'r dyfodol.
- Parhau i adolygu trefniadau gweithio mewn partneriaethau rhanbarthol gyda phartneriaid lleol.
- Gwneud 20mya yn derfyn cyflymder safonol mewn ardaloedd preswyl.
- Ceisio diwygio'r dreth gyngor i sicrhau system decach a mwy graddoledig.
- Diwygio etholiadau llywodraeth leol i leihau'r diffyg democrataidd.

- Cryfhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd llywodraeth leol i'w gwneud yn fwy llwyddiannus wrth ddarparu gwasanaethau.
- Lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.

## Gweithio mewn partneriaeth ar ddeddfwriaeth a pholisi llywodraeth leol

50. Roedd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 [y Ddeddf] yn ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth a gymerodd nifer o flynyddoedd i'w datblygu.  Roedd y diwygiadau a gyflwynwyd gan y Ddeddf wedi cael eu siapio drwy ymgynghori a deialog parhaus gyda llywodraeth leol a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys drwy'r Cyngor Partneriaeth yn ogystal â nifer o ymgyngoriadau papur gwyn a gwyrdd.

51. Cafodd argymhellion y Gweithgor ar Lywodraeth Leol (2018-19) gyda chadeirydd annibynnol eu hystyried gan is-grŵp am gyfnod penodol o'r Cyngor Partneriaeth (yr Is-grŵp Llywodraeth Leol) a fireiniodd yr argymhellion ar gyfer gweithio'n rhanbarthol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru fel Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

52. Bu cydweithwyr mewn llywodraeth leol yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion Llywodraeth Cymru drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil, gan ddarparu arbenigedd a chyngor ar draws amrywiaeth o feysydd gan gynnwys gweinyddu etholiadol, llywodraethu, craffu a threfniadau gweithio rhanbarthol statudol.

53. Roedd y Cyngor Partneriaeth hefyd wedi ystyried cynigion polisi a deddfwriaethol cysylltiedig ar ddiwygio etholiadol, gan gynnwys annog rhagor o bobl i gofrestru, ymgysylltu a chyfranogi mewn etholiadau, yr arolwg statudol o ymgeiswyr a mentrau 'amrywiaeth mewn democratiaeth' i annog rhagor o bobl amrywiol i ystyried sefyll mewn etholiadau.

54. Mewn meysydd polisi eraill, comisiynodd y Cyngor Partneriaeth Adolygiad o Bartneriaethau Strategol, a gyflwynodd adroddiad ym mis Mehefin 2020, i archwilio pryderon am fiwrocratiaeth a chymhlethdod partneriaethau. Daeth yr adroddiad i'r casgliad y dylid annog partneriaethau lleol a rhanbarthol i adolygu eu haliniad a phriodoldeb eu trefniadau, ond na ddylai Llywodraeth Cymru sefydlu unrhyw bartneriaethau newydd heb ystyried a all partneriaeth bresennol gyflawni'r canlyniad angenrheidiol, ac na ddylid rhoi unrhyw swyddogaethau newydd i bartneriaethau presennol heb adnoddau priodol nac ystyried pa ofynion eraill y gellid eu hadolygu neu eu dileu.

### Claddu ac Amlosgi Plant

55. Yn 2017, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ddod i gytundeb i hepgor ffioedd am gladdu ac amlosgi plant. Cafodd hyn ei gyflawni mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol – awdurdodau lleol a chynghorau cymuned a thref, ac roedd yn enghraifft wych o ddod ynghyd ar ymrwymiad ar y cyd i fynd i'r afael â mater eithriadol o bwysig.

56. Yn y cyfarfod ar 1 Mawrth 2021, cadarnhaodd aelodau'r Cyngor Partneriaeth, Llywodraeth Cymru, CLlLC ac Un Llais Cymru, eu hymrwymiad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a gafodd ei ail-lofnodi ymlaen llaw a'i gyflwyno yn y cyfarfod. Roedd y dull gweithredu hwn y cytunwyd arno ar gyfer claddu ac amlosgi plant yn cynnwys ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gael cyllid ar gyfer tair blynedd arall o 1 Ebrill 2021 ymlaen, a hefyd, yn ogystal â hepgor ffioedd, cyfraniad ychwanegol at yr angladd a chostau cysylltiedig eraill.

## Cefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth gwasanaethau cyhoeddus

57. Mae rhannu arferion da a chynlluniau ar gyfer gweithredu dyletswyddau a chyfrifoldebau'r sector cyhoeddus yn bwysig er mwyn sicrhau'r lefelau gofynnol o gysondeb a hyblygrwydd. Un o nodweddion allweddol ffyrdd y Cyngor Partneriaeth o weithio yw parodrwydd aelodau i rannu eu profiadau a'u safbwyntiau i helpu ei gilydd a sicrhau y glynir wrth y dyletswyddau.

58. Roedd enghreifftiau o ddyletswyddau o'r fath a drafodwyd yn y Cyngor Partneriaeth yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus
- Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol

## Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru

59. Yr Is-grŵp Cyllid yw'r prif fforwm ar gyfer trafodaethau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â'r Setliad Llywodraeth Leol, y fframwaith ariannol ehangach gan gynnwys diwygio cyllid, a materion strategol fel gwneud y dreth gyngor yn decach.

60. Roedd yr Is-grŵp Cyllid hefyd yn fforwm ar gyfer trafodaethau ynghylch y gronfa galedi i awdurdodau lleol a ddarparodd gymorth hanfodol yn ystod pandemig COVID-19.

61. Mae aelodau'r Is-grŵp Cyllid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r prif Gyngor Partneriaeth ynghylch y materion hyn fel sy'n berthnasol.

## Y camau nesaf

### Adolygu'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol

62. Adolygwyd y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ddiwethaf yn 2017 a bydd yn cael ei adolygu nesaf ar ôl yr etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022, gyda'r bwriad i aelodau'r Cyngor Partneriaeth ystyried a datblygu cynllun diwygiedig a'i gyhoeddi erbyn diwedd 2022. Bydd yr aelodau hefyd yn adolygu'r Cylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn dal yn addas i'r diben ac yn cynrychioli barn yr aelodau.

## Cydnabyddiaeth

63. Hoffai’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ddiolch i holl aelodau Cyngor Partneriaeth Cymru am eu hymrwymiad i waith y Cyngor, ac am ddatblygu atebion ar y cyd i heriau ar y cyd.  Mae’r arbenigedd a’r cyngor a rannwyd mor rhwydd, a’r cymhelliant a’r ymrwymiad i wasanaethu cymunedau, wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i wasanaethau ac i fywydau pobl yng Nghymru.